| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Pensiynau |
| **Dyddiad:** | 12/09/2022 |
| **Teitl:** | Gweinyddiaeth Pensiynau |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |
| **Pwrpas:** | Er gwybodaeth |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y 6 mis diwethaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod, diweddariad ar wahanol brosiectau a grybwyllwyd yn flaenorol, newidiadau yn y rheoliadau a hefyd yn rhestru'r heriau y mae'r adran yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

## 2. Staffio

Ers y diweddariad gweinyddiaeth ddiwethaf rydym wedi colli nifer o staff. Mae un staff profiadol wedi symud i weithio fel Rheolwr Pensiynau yn y Brifysgol ym Mangor, 2 aelod o staff dros dro wedi gadael i fynd i swyddi newydd ac un aelod o staff wedi derbyn secondiad o fewn y Cyngor i helpu gydag ail gartrefu ffoaduriaid Wcráin yng Ngwynedd.

Mae recriwtio staff ar hyn o bryd yn sialens gyda nifer isel o geisiadau yn cael ei dderbyn ar gyfer hysbysebion swyddi. Wrth siarad gyda rheolwyr cronfeydd eraill, mae'n debyg bod hyn yn broblem genedlaethol, gyda holl gronfeydd Cymru yn cael trafferth denu staff newydd.

Mae staff wedi dychwelyd i'r swyddfa yn y misoedd diwethaf, gyda rhan fwyaf yn gweithio patrwm gweithio hybrid, gan weithio rhai diwrnodau yn y swyddfa a gweddill o'r wythnos yn gweithio o adref. Hyd yn hyn mae'r trefniant yma yn gweithio'n dda gan roi cyfleoedd i staff gydweithio ar brosiectau wyneb yn wyneb a hefyd rhoi cymorth i'w gilydd o ran dysgu agweddau gwahanol o'r gwaith.

## 3. i-Connect

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae i-Connect yn diweddaru data aelodau yn ein system gweinyddu pensiynau yn fisol, gan osgoi'r angen i gyflogwyr anfon gwybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

Cymerir data yn uniongyrchol o system gyflogres gan i-Connect sydd wedyn yn nodi ac yn cyflwyno manylion am aelodau newydd, y rhai sydd optio allan a ymadawyr i ni yn awtomatig.

Erbyn hyn mae'r cyflogwyr i gyd yn defnyddio i-Connect, gyda'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno yn brydlon gan y cyflogwyr i gyd ar y cyfan.

## 4. Hunan Wasanaeth Aelodau

Mae'r wefan Hunan Wasanaeth 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, gyda nifer fawr o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol.

Mae'r safle yn cael ei ddatblygu'n rheolaidd gyda nodweddion newydd yn cael ei ychwanegu e.e. gallu cwblhau'r ffurflenni ymddeol ar lein ac ati.

Mae fersiwn newydd o'r system yn cael ei ddatblygu – o'r prototeip sydd wedi ei gyhoeddi mae'n edrych fel bydd y fersiwn newydd yn rhoi profiad gwell i aelodau.

Mae oddeutu 16,000 wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hyd yn hyn. Mi fydd yna lythyr yn mynd allan yn y misoedd nesaf i'r aelodau sydd heb gofrestru er mwyn eu hannog i gofrestru.

Rydym hefyd yn gweithio ar brosiect a fydd yn galluogi llwytho slipiau cyflog pensiynwyr i'r system 'Fy Mhensiwn Ar-lein'. Byddem yn cysylltu gyda'r pensiynwyr pan fydd yr opsiwn yma ar gael – ond rydym yn cydnabod mi fydd nifer fawr o bensiynwyr yn dewis i barhau i dderbyn slipiau papur, a ni fydd newid i'r drefn yno iddynt.

## 5. Hyfforddiant

Yn y diweddariad diwethaf, soniwyd bod pedwar aelod o staff yn astudio tuag at Radd Sylfaen mewn Gweinyddu a Rheoli Pensiynau. Mae'r radd sylfaen yn gymysgedd o aseiniadau ac arholiadau ac yn cymryd 2 flynedd i'w chwblhau. Rwy'n falch o adrodd erbyn hyn bod y pedair wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus erbyn hyn.

Mae 4 aelod arall o staff hefyd wedi cwblhau cwrs Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Pensiynau. Cwrs 9 mis yw hwn sydd yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol o gynlluniau pensiwn yn y DU.

Dros y misoedd diwethaf mae Hymans Robertson wedi bod yn cynnal sesiynau hofforddiant i gyflogwyr ar y pynciau isod:

- Tâl Pensiynadwy a Thâl Pensiynadwy Tybiedig
- Cyfrifoldebau sylfaenol cyflogwyr
- Ymddeoliad ar sail afiechyd – proses arfer gorau
- Allanoli staff
- Disgresiwn cyflogwyr
- Tâl Pensiynadwy Tybiedig - enghreifftiau

Fe anfonwyd gwahoddiad i gyflogwyr ein cronfa ni i fynychu'r sesiynau yma ac fe dderbyniwyd adborth positif iawn i'r sesiynau gan y cyflogwyr a fynychodd.

## 6. Pensiynau'n Cynyddu

Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Medi 2021 oedd 3.1%. Dyma'r ffigwr a ddefnyddiwyd ym mis Ebrill 2022 i gynyddu taliadau pensiwn ar gyfer ein Pensiynwyr a'n buddion gohiriedig.

Anfonwyd llythyr ym mis Ebrill at ein holl bensiynwyr i'w hysbysu o'u swm pensiwn uwch a'u dyddiadau talu ar gyfer 2022/23.

## 7. Mesur Data

Yn 2015, cymerodd y Rheoleiddiwr Pensiynau (yRP) gyfrifoldeb am Gynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus. Cyn hynny, ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y yRP arweiniad ar yr ymagwedd y maen nhw'n ei ystyried yn arfer da i fesur presenoldeb data aelodau.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn comisiynu ein darparwr meddalwedd, Aquila Heywood i gynhyrchu Adroddiad Ansawdd Data ar gyfer ein Cronfa bob mis Medi. Erbyn hyn rydym gyda meddalwedd i redeg yr adroddiad hwn yn fewnol.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n ddwy adran:

- **Data Cyffredin:** e.e. enw, cyfeiriad, rhif YG, rhyw, dyddiad geni, statws a dyddiad cychwyn
- **Data Penodol i'r Cynllun:** e.e. buddion yn y cynllun, manylion trosglwyddo, CGY, manylion cyflog, cyfraniadau, gwasanaeth, lwfans oes, lwfans blynyddol a IPG.

Rydym yn rhoi isod grynodeb o'r canlyniadau:


### Crynodeb o'r Canlyniadau Data Cyffredin

Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data.

Cyflawnodd 7 o'r 8 categori'r meincnod uchaf o fwy na 98% gydag 6 categori heb gofnodi methiant unigol. Yr unig gategori na gyrhaeddodd y meincnod uchaf dan sylw oedd **cyfeiriadau aelodau** gyda sgôr o **96.92%.** Ac eithrio cyfeiriadau aelodau, mae ansawdd cyffredinol y data cyffredin yng Ngwynedd o safon uchel. Er mwyn gwella'r sgôr cyfeiriadau aelodau rydym wedi defnyddio cwmni o'r enw ATMOS yn Fawrth 2021 i wneud gwaith i olrhain cyfeiriad aelodau a gofnodwyd fel rhai sydd

"wedi diflannu". Er bod ATMOS wedi adnabod oddeutu 1,400 cyfeiriad newydd i ni, mae yna barhau i fod oddeutu 900 o gofnodion lle rydym angen cyfeiriad cywir ar eu cyfer .


Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data cyffredin yw **97.7%** (97.5% blwyddyn ddiwethaf) a dyma'r ffigwr y bydd yRP yn ei dderbyn ar ddychweliadau'r cynllun.




**Crynodeb o Ganlyniadau Data Penodol y Cynllun**

Mae'r graff isod yn dangos perfformiad Gwynedd ar gyfer pob categori data yn erbyn meincnodau'r cynllun y cytunwyd arnynt.

Canran y cofnodion aelodau heb fethiant data unigol sy'n benodol i'r cynllun yw **94.89%** (92.1% flwyddyn ddiwethaf) a dyma'r ffigwr y bydd yRP yn ei dderbyn ar ddychweliadau'r cynllun.




Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â gweithredu unrhyw lanhau data a amlygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn a disgwylir i'r glanhau data hwn wella'r sgoriau data ar gyfer y flwyddyn nesaf.


## 8. Arolwg Boddhad Aelodau

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n haelodau, mae Arolwg Boddhad Aelodau yn cael ei anfon ar ddiwedd pob proses, e.e. ymddeoliadau a thalu ad-daliadau i'r aelodau roi eu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd a'u barn am y gwasanaeth a ddarperir gan staff y gwasanaeth

Dyma grynodeb o ganlyniadau 2021/22:

**Ansawdd Gwasanaeth**


Mae'r siart isod yn dangos canran y defnyddwyr sy'n fodlon gyda phedwar agwedd o berfformiad y gwasanaeth ar sail: i) Gwasanaeth ar y cyfan; ii) gwybodaeth glir; iii) Ansawdd y gwasanaeth; iv) Amser i ddelio gyda'r ymholiad.




Fel y gwelir, mae 96.5% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel.

**Staff**

Mae'r siart isod yn dangos canran y defnyddwyr sy'n fodlon gyda phedwar agwedd o berfformiad staff ar sail: i) Cwrteisi; ii) Prydlondeb; iii) Cymorth a roddwyd; iv) lefel gwybodaeth.




Fel y gwelir, mae canran uchel unwaith eto (98.75%) o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel mewn perthynas staff y gwasanaeth.

## 9. Rheoli Perfformiad

Mae'r Gronfa Bensiwn yn ymroddedig i wella ei ddarpariaeth o wasanaeth a bydd yn adolygu'r mesurau sydd mewn lle i fonitro perfformiad yn flynyddol er mwyn adnabod lle y gellir gwneud gwelliannau. Ble mae meysydd o berfformiad gwael yn cael eu nodi, bydd y Gwasanaeth Bensiynau yn adolygu'r rhesymau dros berfformiad gwael a rhoi prosesau priodol ar waith i wella lefel y gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol.

Rydym ar hyn o bryd yn paratoi'r manylion perfformiad llawn ar gyfer adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn. Bydd yr adroddiad hwnnw yn cynnwys manylion perfformiad holl ddyletswyddau'r adran, ond yn y cyfamser gweler isod perfformiad 2021/22 y gweithgareddau rydym yn adrodd arno yn fisol i'r Prif Weithredwr:

| Cyf. | Gweithgareddau Craidd | Perfformiad yn 2020/2021 | | Perfformiad yn 2021/2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer yr achosion | Diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd | Nifer yr achosion | Diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CD9.03 | Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddion – amcangyfrifon | 1,680 | 2.8 | 1,720 | 1.33 |
| CD9.04 | Nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr yn rhoi gwybod am werth y buddion – gwir werth | 697 | 1.3 | 685 | 0.99 |
| CD9.06 | Cyfartaledd nifer o ddiwrnodau gwaith a gymerwyd i hysbysu gwerth buddion dibynyddion | 245 | 3 | 288 | 1.84 |

Fel y gwelir, mae perfformiad y gwasanaeth ar gyfer y gweithgareddau uchod wedi gwella yn 2021/22 i gymharu â pherfformiad 2020/21.

## 10. Dyfarniad McCloud

Pan ddiwygiodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn 2014 a 2015 fe wnaethant gyflwyno amddiffyniadau i aelodau hŷn. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod aelodau iau o gynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân wedi cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd nad yw'r amddiffyniadau yn berthnasol iddynt.

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd newidiadau i holl brif gynlluniau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y CPLlL, i gael gwared ar y gwahaniaethu ar sail oedran. Yn aml, gelwir y dyfarniad hwn yn 'ddyfarniad McCloud' ar ôl i aelod o Gynllun Pensiwn y Barnwyr ymwneud â'r achos.

Pan newidiodd y CPLlL o gynllun cyflog terfynol i gynllun pensiwn cyfartalog gyrfa yn 2014, cafodd aelodau a oedd o fewn 10 mlynedd i'w Oedran Pensiwn Arferol (65 oed fel arfer) ar 1 Ebrill 2012 amddiffyniad o'r enw 'underpin'. Pan fydd aelod gwarchodedig yn cymryd ei bensiwn, cymharir y buddion sy'n daladwy o dan y cynlluniau cyfartaledd gyrfa a chyflog terfynol a thelir y swm uwch.

Yn dilyn y dyfarniad McCloud mae angen i'r Llywodraeth ddarparu amddiffyniad sy'n hafal i'r amddiffyniad sylfaenol a ddarperir i aelodau hŷn er mwyn dileu'r gwahaniaethu.

Er mwyn ddarparu'r warchodaeth yma bydd yn rhaid i ni ail gyfrifo buddion aelodau sydd wedi ymddeol, marw a gadael y cynllun ers Ebrill 2014, yn ogystal â diweddau cofnodion aelodau actif y gronfa gyda manylion oriau a thoriadau mewn gwasanaeth.

Mae'r prosiect yma yn un sylweddol, ac rydym yn tybio bydd angen ail edrych ar 20,000 o gofnodion. Rydym yn gobeithio bydd ein system gyfrifol yn gallu gwneud y gwaith o ail gyfrifo, ond rydym yn disgwyl ar hyn o bryd i glywed beth yw'r opsiynau sydd ar gael ganddynt ar gyfer hyn.

Rydym wedi dechrau'r gwaith o gasglu data. Rydym wedi derbyn cadarnhad gan ran fwyaf o'r cyflogwyr bach a canolig bod y manylion rydym wedi ei gofnodi ar gyfer aelodau yn gywir. Rydym hefyd wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda'r cyflogwyr mawr i drafod ein gofynion o ran darparu data. Mae nifer o'r cyflogwyr yma yn casglu'r data ar hyn o bryd.

O ran Cyngor Gwynedd, bydd yn rhaid i ni wneud y gwaith o gasglu'r data ein hunain. Gan mai Gwynedd yw cyflogwr mwyaf y gronfa, mae'n debyg bydd gwirio a diweddaru'r cofnodion bydd y gwaith mwyaf o ran y prosiect – ond bydd yn gwella ansawdd ein data a sicrhau fod cofnodion ein haelodau yn gywir.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn dechrau ar y gwaith o ddifri o gywiro cofnodion hwyrach ymlaen eleni. Rydym wedi derbyn caniatâd gan y Pwyllgor Pensiynau i sefydlu tîm dros dro i ymgymryd â'r gwaith yma. Rydym yn y broses o recriwtio at hyn o bryd, ond fel y nodwyd uchod, mae recriwtio staff yn broblem ar hyn o bryd.

Serch yr holl waith, mae'r rhan fwyaf o aelodau'n annhebygol o weld cynnydd i'w pensiwn, a phan fydd cynnydd yn cael ei gymhwyso, mae'n debygol o fod yn fach. Y rheswm am hyn yw y bydd y mwyafrif o aelodau'n cronni pensiwn uwch yn y cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa nag y byddent wedi'i gael o dan y cynllun cyflog terfynol.

## 11. Prisiad 2022

Fel rydych yn gwybod, mae actiwari'r gronfa yn cynnal prisiad o'r gronfa bob 3 blynedd yn unol â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Pwrpas y prisiad yw adolygu sefyllfa ariannol y Gronfa a phennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr am y 3 blynedd nesaf.

Mae'r actiwari yn amcangyfrif faint o asedau fydd eu hangen i gwrdd â'r taliadau buddion sy'n ddyledus i aelodau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Gwneir cyfrifiadau ar wahân i nodi cost ddisgwyliedig buddion aelodau mewn perthynas ag aelodaeth o'r cynllun a gwblhawyd cyn y dyddiad prisio (gwasanaeth yn y gorffennol) a'r hyn y disgwylir iddo gael ei gyfrifo ar ôl y dyddiad prisio (gwasanaeth yn y dyfodol).

Cyfrifir cymhareb ariannu gan yr actiwari sy'n cymharu gwerth yr asedau a rhwymedigaethau gwasanaeth y gorffennol ar ddyddiad y prisiad. Mae'r gymhareb hon yn darparu gwiriad yn erbyn y nod o gyrraedd y targed lefel ariannu tymor hwy.

Mae'r ymarfer prisio yn gymhleth. Mae angen i'r actiwari wneud rhagdybiaethau am y dyfodol:

- cyfraddau chwyddiant
- codiadau cyflog
- hirhoedledd
- enillion buddsoddi

Mae gwaith ar Prisiad 2022 wedi dechrauac rydym wedi derbyn canlyniadau y cronfa gyfan yn ystod mis Awst. Yn dilyn trafod y canlyniadau gyda'r actiwari rydym yn rhagweld y byddem mewn sefyllfa i rhyddhau y canlyniadau i'r cyflogwyr yn ystod mis Hyfref. Bydd cyflwyniad i'r cyflogwyr gan yr actiwari yn cael ei gynnal pryd hynnu a bydd croeso i aelodau'r Pwyllgor fynychu'r sesiwn. Fe'i cynhelir am 10.00 y.b. yn Siambr Dafydd Orwig, ar 26 Hydref 2022.

## 12. Cwynion

Yn ffodus, mae'r nifer o gwynion rydym yn ei dderbyn yn isel iawn. Dyma fanylion y cwynion rydym wedi ei dderbyn yn ystod 2021/22:

- **Ymddeoliad Salwch**: Aelodau yn anhapus na fu eu cais i ymddeol o dan yr opsiwn ymddeoliad salwch yn llwyddiannus. Mae'r penderfyniad yma tu allan i reolaeth y gronfa – Mae'r cwynion yma yn cael eu cyfeirio yn ôl i'r cyflogwr perthnasol.

- **Perthynas i aelod ymadawedig wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg:** Rydym wedi derbyn 1 cwyn gan berthynas aelod ymadawedig gan eu bod wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg yn dilyn eu profedigaeth. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad i'r gwyn yma ar hyn o bryd. Fel rheol rydym yn gofyn i'r teulu am eu dymuniad iaith, ond yn anffodus yn yr achos yma ni dderbyniwyd cyswllt gan y teulu ac fe anfonwyd llythyr Saesneg allan mewn camgymeriad (ein dewis rhagosodiad yw anfon llythyrau yn Gymraeg os nad yw'r dewis iaith yn hysbys). O hyn ymlaen rydym am anfon y llythyrau yma allan yn ddwyieithog er mwyn osgoi cwyn o'r fath eto.